**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD MERCHER, 9 MAWRTH 2022 DYDD MERCHER, 9 MAWRTH 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HOLT (CADEIRYDD)

Councillors M. Day (Deputy Chair)
P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem

T. Smith
B. Summers
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH: Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
Pennaeth Adfywio
Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth - Cyfrifeg
Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch
Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant
Swyddog y Wasg a Chyfathrebu

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Holland. | |

| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>** | |
|---|---|---|

**DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**

Adroddwyd y datganiadau dilynol o fuddiant:

**Eitem Rhif 19: Cyllideb Refeniw 2022/2023**

- Cynghorwyr Malcolm Cross, Lyn Elias, John Hill, Wayne Hodgins, Haydn Trollope, Thomas Smith a Bernard Willis

Arhosodd yr Aelodau a enwir uchod yn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem o fusnes.

**Eitem Rhif 20: Ffioedd a Chostau Corfforaethol 2022/2023**

- Cynghorwyr Stewart Healy a Wayne Hodgins

Arhosodd yr Aelodau a enwir uchod yn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem o fusnes.

**Eitem Rhif 24: Datganiad Polisi Cyflogau 2022/2023**

- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr
- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau
- Bernadette Elias – Prif Swyddog Interim Masnachol
- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol
- Clive Rogers – Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
- Ellie Fry – Pennaeth Adfywio
- Sarah King – Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau
- Gina Taylor – Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg
- Gemma Wasley – Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
- Richard Bridge – Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch
- Steve Berry – Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant
- Louise Bishop – Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd
- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd
- Leeann Turner – Swyddog Cymorth Democrataidd a Phwyllgor

| | | |
|---|---|---|
| | Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro, er bod y swyddogion a enwir uchod wedi datgan buddiant yng nghyswllt Datganiad Polisi Cyflogau 2022/23, y caniateir iddynt aros yn y cyfarfod. Fodd bynnag, pe byddai trafodaeth yn dilyn byddai'r swyddogion hynny a ddatganodd fuddiant yn gadael y cyfarfod ar adeg priodol ac eithrio:<br><br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd (clerc cofnodion)<br><br>Eite Eitem Rhif 28: Llunio rhestr Fer: Prif Weithredwr Interim<br>:<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Bernadette Ellais – Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid<br><br>Irem Eitem Rhif 30: Pwyllgor Apwyntiadau – Prif Weithredwr Interim<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Bernadette Ellais – Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid<br><br>Foll Yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro, gallodd y swyddogion a enwir uchod aros yn y cyfarfod tra ystyriwyd eitemau rhif 28 a 30. | |
| **No. 4** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Gwrthdaro Wcráin/Rwsia:**<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y sefyllfa echrydus bresennol yn Wcráin wrth i'r ymosodiad direswm o'r wlad barhau i waethygu, ac felly'r argyfwng dyngarol enbyd a olygodd fod bron filiwn o bobl wedi eu hadleoli yn y saith diwrnod cyntaf ac yn awr mae dwy filiwn o ffoaduriaid wedi ffoi o Wcráin ar ôl dwy wythnos ac yn anffodus rhagwelir y bydd y sefyllfa hon yn parhau cyhyd ag y bydd y rhyfel.<br><br>Aeth ymlaen drwy ddweud fod meddyliau gyda phawb y mae'r sefyllfa wedi effeithio arnynt a'r wythnos ddiwethaf cafodd adeilad y Swyddfa Gyffredinol ei oleuo yn lliwiau baner genedlaethol Wcráin i ddangos cefnogaeth y Fwrdeistref Sirol i bobl Wcráin. | |

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn anodd ar y cam hwn rhagweld yn union beth fydd yn digwydd yn y cyfnod nesaf a sut y gall hyn effeithio ar y wlad ac yn wir gymunedau. Yn y dyddiau ac wythnosau i ddod, byddai gan bobl bryderon am effaith y rhyfel hon yn Wcráin a gartref a dywedodd y byddai'r Cyngor yn gwneud popeth a fedrai i gasglu a rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i breswylwyr.

Fel rhan o ymateb y gwasanaeth cyhoeddus roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi cwrdd gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio opsiynau i sicrhau y gellid darparu cymorth yng Nghymru pan mae dinasyddion Wcráin yn dechrau cyrraedd. Ymhellach i hyn, mae arweinydd WLGA wedi ysgrifennu at Brif Weinidog ac Ysgrifennydd Cartref y Deyrnas Unedig ar ran 22 awdurdod lleol Cymru yn mynegi pryder fod ymysg pethau eraill fod proses ailsefydlu ffoaduriaid yn y Deyrnas Unedig yn rhy gymhleth, cul a chyfyngol yn wahanol i wledydd cyfagos oedd wedi symud yn gyflym ac wedi symleiddio prosesau a llacio rheolau. Felly roedd Arweinydd WLGA wedi gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ystyried y sefyllfa bresennol a rhoddir gwybodaeth bellach maes o law pan fydd mwy o fanylion ar gael.

Roedd y Cynghorydd John Mason wedi galw cyfarfod, fel Cadeirydd y Gweithgor Ailsefydlu, ar 14 Mawrth i drafod y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt adsefydlu posibl pobl o Wcráin a threfniadau lleol, lle'r oedd yn sicr y byddai awgrymiadau am y paratoadau angenrheidiol pellach yn cael eu trafod a gobeithiai erbyn hynny y byddai mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn gan WLGA. Yn ychwanegol, byddai'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau allweddol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i adolygu materion yn agos i sicrhau y gallai ymateb gystal ag y gallai i unrhyw oblygiadau sy'n codi ar gyfer cymunedau lleol.

Ychwanegodd yr Arweinydd y bu cyhoedd Cymru ac yn wir bobl a sefydliadau o fewn ei gymunedau ei hun yn hael iawn a diolchodd yn ddiffuant ar ran y Cyngor i bawb oedd wedi gwneud cyfraniad hyd yma. Bu pobl yn awyddus i gyfrannu a chefnogi pobl Wcráin, fodd bynnag roedd cyfrannu nwyddau yn achosi anawsterau logistaidd yma a thramor ac felly cafodd pobl oedd eisiau ac yn medru cyfrannu i wneud cyfraniad ariannol i apêl y Pwyllgor Argyfwng Trychineb ac mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad yn cyfleu'r neges hon a manylion perthnasol yr wythnos ddiwethaf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau ei fod yn darparu £4m i gymorth dyngarol i Wcráin, a gyfrannwyd i'r Pwyllgor Argyfwng Trychineb, a gynrychiolodd 15 o elusennau mawr. Byddai dyrannu cyllid yn y ffordd hon yn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd ei angen mor gyflym ac mor effeithiol ag sydd modd.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i ddynodi a chymryd camau ar unrhyw fuddsoddiadau a ddelir yn gysylltiedig gyda gwladwriaeth Rwsia. Yn nhermau Blaenau Gwent, nid oes gan y Cyngor unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol gyda busnesau neu sefydliadau ariannol Rwsia gan na fyddent ar hyn o bryd yn diwallu'r strategaeth osgoi risg o fuddsoddi mewn gwrth bartïon graddiad credyd uchel.

Yng nghyswllt Cronfa Pensiwn Gwent Fwyaf, ar sail cronfa (seiliedig ar brisiadau Ionawr 2022) mae agoredrwydd o tua 0.19% neu £7.14m ym marchnad Rwsia. Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cyhoeddi datganiad cryf o fwriad i waredu'r Gronfa o'r buddsoddiadau hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Ar y pwynt hwn, dangosodd Aelodau a swyddogion mewn gweithred o gefnogaeth i Wcráin ac i bawb sy'n gysylltiedig â'r drychineb ofnadwy hwn ar ddwy ochr y gwrthdaro gyda munud o dawelwch.

**Llongyfarchiadau:**

Mynegwyd llongyfarchiadau i:

- Mr a Mrs Annett o Waunlwyd oedd wedi dathlu 70fed pen-blwydd eu priodas ar 1 Mawrth.

  Anfonwyd llythyr yn eu llongyfarchiadau.

- Cynghorydd Clive Meredith sydd wedi cyfrannu ei 100fed peint o waed i Wasanaeth Gwaed Cymru.

**Apêl y Cadeirydd – Banc Bwyd Blaenau Gwent:**

Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad i Aelodau a gyfrannodd i apêl Banc Bwyd Blaenau Gwent. Hyd yma codwyd dros £770 i gefnogi'r sefydliad a fu â rôl hanfodol ar draws y fwrdeistref i gefnogi pobl fregus drwy'r pandemig ac yn parhau i wneud hynny.

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION – TACHWEDD 2021- CHWEFROR 2022</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2021 – Chwefror 2022 i'w ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDIAETH</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDIAETH</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 14** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **<u>CWESTIYNAU AELODAU</u>**<br><br>**<u>Cwestiwn Rhif 1</u>**<br><br>Derbyniwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Phil Edwards, Arweinydd y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol, ac atebwyd gan y Cynghorydd Nigel Daniels, Arweinydd y Cyngor:<br><br>**Cwestiwn:**<br><br>Yn dilyn y datgeliad mewn cyfarfod diweddar y byddir yn gosod camerâu teledu CCTV yn yr Arcêd yn Abertyleri, a wnaiff yr Arweinydd esbonio o ble daeth y cyllid a phwy benderfynodd eu gosod yno?<br><br>**Ymateb:**<br><br>Mae'r camera CCTV yn Arcêd Abertyleri yn cymryd lle hen gamera nad oedd bellach yn gweithio a gafodd ei osod oherwydd lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y rhan honno o'r Arcêd dros nifer sylweddol o flynyddoedd. Yn anffodus, yn awr oherwydd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau yn yr ardal gyfyngedig hon ac yn dilyn asesiad o effaith diogelu data, cafodd y broses benderfynu gan swyddogion ei seilio ar wybodaeth gref a gafwyd gan yr heddlu lleol, y gymuned a gwybodaeth a chwynion gan breswylwyr ynghyd ag Aelodau lleol Abertyleri. Gwnaeth hyn i swyddogion perthnasol y Cyngor i benderfynu er budd ac egwyddor y trefniadau camera CCTV fod angen camera newydd a daeth cyllid ar gyfer y camera hwn o'r tu fewn i gyllideb refeniw bresennol CCTV. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cwestiwn Atodol:**<br><br>Mae eiddo preifat yn yr Arcêd (yr ymddengys fod y Cyngor yn eu hategu) a chaiff clwydi'r Arcêd eu cau bob gyda'r nos ac felly gofynnodd yr Aelodau sut y gallai ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn parhau yn yr ardal hon.<br><br>**Ymateb:**<br><br>Y Cyngor sy'n gyfrifol am Arcêd Abertyleri ac mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w lanhau a'i gynnal ac mae cyllideb fach ar gael ar gyfer y diben hwnnw. Er na fedrai'r Arweinydd ddatgelu manylion sut mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau er bod y clwydi yn cael eu cau bob nos gan swyddogion, rhoddodd sicrwydd fod yr heddlu yn cefnogi hyn yn llawn oherwydd y byddai'n eu galluogi i wybod pwy sy'n gyfrifol a chymryd camau priodol. Byddai'r llwybr gweithredu hwn hefyd yn diogelu eiddo'r Cyngor.<br><br>**<u>Cwestiwn Rhif 2</u>**<br><br>Derbyniwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Hedley McCarthy ac atebwyd gan y Cynghorydd Dai Davies, Aelod Gweithrediaeth Adfywio a Datblygu Economaidd:<br><br>**Cwestiwn:**<br><br>Yn dilyn adroddiadau anffafriol yn y wasg am Gapel y Drindod, sy'n dal i fod yn segur a gwag ar ôl chwe mlynedd, a fyddai'r Aelod Gweithrediaeth Adfywio yn esbonio i'r cyngor fod y prosiect ar impasse ac nad oeddem yn ddim nes at ei gwblhau nag oeddem ar ddechrau'r tymor hwn yn 2017?<br><br>**Ymateb:**<br><br>Dechreuodd Aelod Gweithredadiaeth Adfywio a Datblygu Economaidd drwy ddweud na fedrwyd cwblhau Capel y Drindod yn ystod ei gyfnod fel Aelod Gweithrediaeth.<br><br>Cyfeiriodd at ran gyntaf y cwestiwn sy'n dweud fod Capel y Drindod wedi sefyll yn segur ac yn wag am chwe mlynedd a dywedodd i'r adeilad ddod i ddwylo'r awdurdod lleol yn 2009/10, felly y bu'n segur a gwag am flynyddoedd lawer cyn 2017. Gwariwyd buddsoddiad o £1.2m ar y prosiect yn ystod 2015 a bryd hynny nid oedd wedi cynnwys ailwampio mewnol a dywedodd y | |

cafodd yr adeilad ei adael yn y cyflwr hwn am gyfnod sylweddol.

Yn 2017 ymchwiliwyd ffyrdd o barhau i gyllido'r prosiect a bryd hynny dechreuwyd ar drafodaethau gyda thrydydd parti oedd yn barod i fuddsoddi swm sylweddol o arian i orffen yr adeilad. Roedd rhan o'r cytundeb hwn yn Drosglwyddiad Ased Cymunedol i drydydd parti ar ryw amser yn y dyfodol.

Er mwyn galluogi'r prosiect i symud ymlaen, cafodd cynlluniau ar gyfer defnydd yr adeilad eu gwneud mewn cysylltiad gyda'r trydydd parti a chynhaliwyd proses dendro i gwblhau'r ailwampio mewnol. Cymerodd y broses hon lawer yn hirach nag a ddisgwylid gan y bu'n gwneud llawer o ddiwydrwydd dyladwy bryd hynny, oedd yn hanfodol oherwydd faint o gyllid a wariwyd ar yr adeilad eisoes.

Yn fuan ar ôl i'r pandemig daro ar y gymuned, Prydain a'r byd ac roedd yn rhaid i flaenoriaethau newid i drin yr ymateb argyfwng. Cafodd gwaith ar brosiect Capel y Drindod a gwaith ar yr adeilad ei atal am dros 18 mis oherwydd y cyfnod clo. Yn ychwanegol, roedd costau adeiladu wedi cynyddu llawer yn ystod 2 flynedd y pandemig, felly pan ddaeth y cyfnod clo i ben ac yr ailddechreuodd trafodaethau gyda'r trydydd parti, roedd cynnydd sylweddol yng nghostau'r prosiect. Fel canlyniad, roedd trydydd parti wedi gofyn am aildendro a gwnaed hyn a chyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i gwblhau'r prosiect. Bu'r cais hwn am gyllid yn llwyddiannus a rhoddwyd cyllid y gellid ei ddefnyddio fel arian cyfatebol i gwblhau'r prosiect.

Aeth yr Aelod Gweithrediaeth ymlaen drwy ddweud y byddai felly'n dadlau y gosodiad na chafodd unrhyw waith ei wneud – cafodd cryn dipyn o waith ei wneud yn ystod yr amser oedd ar gael, fodd bynnag roedd yr oedi a'i wynebodd wedi bod yn sylweddol. Cyfeiriodd yr Aelod Gweithrediaeth at erthygl yn y wasg oedd wedi gwneud sylwadau am faint o arian a wariwyd ar Gapel y Drindod a dywedodd wrth edrych yn ôl y dylai'r prosiect fod wedi ei drin yn wahanol a dywedodd fod yr erthygl yn y wasg yn cyfeirio at amser cyn 2017.

Daeth yr Aelod Gweithrediaeth i ben drwy roi sicrwydd y byddai'r Cyngor yn ddarbodus yn nhermau unrhyw wariant pellach a ddefnyddid ar y prosiect a'i fod yn dal i fod yn obeithiol y medrir cwblhau Capel y Drindod ar ryw amser yn y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| | **Cwestiwn Atodol:**<br><br>Dywedodd yr Aelod, pe byddid wedi ei gwblhau, y gellid bod wedi defnyddio Capel y Drindod fel adnodd yn ystod y pandemig a dywedodd nad oedd unrhyw gyfleusterau bancio yn Abertyleri. Gofynnodd os y byddai'r Aelod Gweithrediaeth a'r Arweinydd yn cymryd cyfrifoldeb am y llanastr hwn?<br><br>**Ymateb:**<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithrediaeth y byddai'n sicr yn cymryd cyfrifoldeb ei fod wedi bod eisiau i'r prosiect cael ei gwblhau ond dywedodd fod cynlluniau ar gyfer yr adeilad yn dyddio'n ôl i 2013 cyn iddo fod yn gysylltiedig a bod y cynlluniau hyn yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer Abertyleri yn cynnwys prosiect Capel y Drindod, a bod yr Arweinydd bryd hynny wedi eu cymeradwyo.<br><br>Ychwanegodd fod un cynnig o'r fath yn cyfeirio at leoliad y llyfrgell presennol nad yw'n addas i'r diben a chynigiodd y dylid ei symud i ganol y dref i gynyddu nifer defnyddwyr. Cydnabu'r Aelod Gweithrediaeth y pwynt am drefniadau bancio a dywedodd, gan weithio ar y cyd gyda'r trydydd parti, ei fod wedi gobeithio y byddai gwasanaethau bancio ar gael yn y dref unwaith y cafodd yr adeilad ei gwblhau. | |
| **No. 18** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 19** | **<u>CYNNIG O GERYDD</u>**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd drwy atgoffa'r cyngor fod hyn yn Rybudd o Gerydd ac nid yn bleidlais diffyg hyder fel yr adroddwyd yn y wasg a gwahoddodd Arweinydd y Grŵp Llafur i gyflwyno'r Cynnig o Gerydd ar y pwynt hwn.<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud fod hyn yn fater technegol a bod angen trafod y cynnig. Oherwydd y datganiad a wnaed gan y Cadeirydd, gofynnodd i'r Swyddog Monitro gadarnhau os yw hyn yn gywir oherwydd ei ddealltwriaeth ef oedd fod angen i'r Cynnig gael ei lofnodi gan o leiaf 7 Aelod yn cynnwys Aelodau o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf i fod yn ddilys ac felly nad oedd angen cefnogaeth dau-draean y Cyngor. | |

Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol nad yw Cyfansoddiad y Cyngor yn cyfeirio at 'bleidlais diffyg hyder'. Fodd bynnag, mae cyfeiriad at Gynnig i symud Arweinydd y Cyngor a all fod wedi ei ddehongli fel pleidlais diffyg hyder ac er mwyn symud yr Arweinydd, mae'r Cyfansoddiad yn dweud fod yn rhaid i ddau draean o'r Aelodau gefnogi'r Cynnig. Cafodd y Cynnig hwn ei ddiffinio fel 'Cynnig o Gerydd' a dywedodd mai ei barn hi fel Swyddog Monitro oedd fod yn hyn yn enw addas ar gyfer y cynnig hwn.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod cynigion o ddiffyg hyder yn gyffredin ar draws y wlad ac y gallent gymryd rhan ac roedd caniatâd iddynt gael eu hystyried. Nid oedd angen i'r cynigion hyn gyrraedd y trothwy o ddau-draean ar gyfer symud yr Arweinydd, felly yn ei hanfod mae hyn yn gynnig o ddiffyg hyder ac yn gynnig i'w drafod. Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy gyflwyno'r cynnig o gerydd fel sy'n dilyn:

Trafododd cyfarfod diweddar y Cyngor ar 7 Chwefror 2022 gyda'r adroddiad hirddisgwyliedig gan Archwilio Cymru ar 'Diffygion yn llywodraethiant a throsolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o Silent Valley Waste Services'.

Pan y'i holwyd ar 7 Chwefror, datgelodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y Cynghorydd Daniels wedi derbyn llythyr gwreiddiol chwythu'r chwiban lle cafodd y swyddog ei enwi a bod eraill a dderbyniodd y llythyr yn cynnwys y Swyddog Arweiniol, Undebau Llafur a'r Dirprwy Adroddiad.

Roedd y swyddog a enwir yn yr adroddiad yn gweithio i'r Cyngor ac roedd hynny'n golygu y gwyddai'r Cynghorydd Daniels ar 22 Mawrth 2018 fod y sawl fydda'n derbyn yr ymddeoliad hyblyg a gynigid ymysg y rhai oedd wedi cael eu hymchwilio gan Heddlu Gwent ac Archwilio Cymru am saith mis cyn cynnal y cyfarfod hwnnw. Roedd y Cynghorydd Daniels yn fwriadol wedi atal yr wybodaeth hon rhag ei gydweithwyr yn y Cyngor, na wyddai ddim am y rhai oedd yn cael eu cynnwys yn yr ymchwiliad. Roedd 34 Aelod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, ac ni wyddai 32 ohonynt fod y swyddog hwn yn rhan o'r ymchwiliadau oedd yn mynd rhagddynt. Credai Arweinydd y Grŵp Llafur pe byddai Aelodau wedi gwybod am yr wybodaeth na fyddent wedi cefnogi'r adroddiad anniogel hwn.

Am y rhesymau a amlinellir uchod nid oes gan yr Aelodau a

lofnododd y Cynnig o Gerydd hyder yn Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Nigel Daniels.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud y byddai'n ymateb drwy ddatganiad ond dywedodd mai'r un cwestiwn nad oedd neb erioed wedi ei ofyn iddo oedd os oedd wedi gweld cwyn gohebiaeth y chwythwr chwiban ac mai'r ateb oedd na nad oedd ac nad oedd wedi gweld y llythyr. Nid oedd y ffaith iddo ddeall yn ddiweddar fod ei enw ar y rhestr cylchredeg yn brawf iddo dderbyn copi o'r llythyr.

Wedyn rhoddodd yr ymateb dilynol i'r Cynnig o Gerydd drwy amlinellu'r ffeithiau cronolegol:

Derbyniodd y Cyngor ohebiaeth y chwythwr chwiban ym mis Awst 2017 oedd yn gwneud nifer o honiadau heb eu cadarnhau yn erbyn 13 o gyn swyddogion a swyddogion cyfredol y Cyngor. Dim ond pan hysbysodd Archwilio Cymru y Cyngor y gwyddai fod 13 swyddog yn cael eu hymchwilio i ddechrau. Cafodd yr ohebiaeth ei thrin yn gywir dan y weithdrefn briodol a'i chyfeirio at Archwilio Cymru ar gyfer ymchwiliad yn 2017. Yn bwysig, mae gweithdrefn chwythu'r chwiban yn rhoi cyfrinachedd i unrhyw achwynydd ac yn eu cadw'n ddienw ac felly byddai unrhyw rannu ar y llythyr neu wybodaeth a gynhwysir yn y llythyr yn torri'r cyfrinachedd hwnnw a pholisi Chwythu'r Chwiban. Hyd yn oed os byddai wedi gweld y gŵyn ac yn amlwg pe byddai unrhyw swyddog neu Aelod wedi ei rhannu, byddent wedi torri'r cyfrinachedd hwnnw a Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a hefyd swyddogion. Felly gallai rhoi mantais yr amheuaeth i'r swyddog a oedd yn dderbynydd cyntaf y gŵyn fod wedi bod y rheswm pam mae'n debyg na chafodd yr Arweinydd gopi a fwriadwyd iddo.

Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor iddo gael ei hysbysu am y gŵyn gan uwch swyddog heb i unrhyw enwau na manylion gael eu rhannu gydag ef ond dywedwyd wrtho am gadw hynny'n gyfrinachol a pheidio trafod na rhannu'r ffaith y derbyniwyd unrhyw gŵyn o'r fath a phan ofynnwyd iddo am y manylion, dywedwyd wrtho nad oedd yn briodol i'r wybodaeth gael ei rhannu gydag ef oherwydd natur gweithdrefn chwythu'r chwiban. Felly roedd y cyhuddiadau yn y cynnig ac yn y datganiad i'r wasg yn ei gyhoeddo o guddio manylion ymchwiliad yr heddlu rhag cynghorwyr yn hollol anghywir. Yn ychwanegol, er cywirdeb cafodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei dyfynnu yn y Cynnig a'r datganiad i'r wasg fel bod yn dweud mai ef oedd wedi derbyn y

| | | |
|---|---|---|
| | gŵyn chwythu'r chwiban, mewn gwirionedd dim ond wedi cadarnhau fod ei enw ar gylchrediad y copi fel bod wedi'i gopïo i'r ohebiaeth a wnaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ac roedd hyn ymhell o fod yn brawf ei fod wedi derbyn yr ohebiaeth honno mewn gwirionedd.<br><br>Yng nghyswllt yr Adolygiad Uwch Reolwyr, canlyniad yr adolygiad hwnnw oedd argymell caniatáu ymddeoliad hyblyg i'r swyddog dan sylw a chafodd hyn ei drin yn gywir dan y Polisi Ymddeoliad Hyblyg ac roedd y swyddog wedi symud i swydd is yn y gwasanaeth cyllid fel y caniateir dan y polisi. Dywedodd yr Arweinydd y gallai'r Rheolwr Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol ddymuno cadarnhau ar ryw bwynt y ffaith na fyddai fod wedi unrhyw gyfiawnhad dros ganiatáu ymddeoliad hyblyg ar gyfer y swyddog hwnnw y gwnaed honiadau heb dystiolaeth na sail amdanynt ac na chafodd difrifoldeb yr honiadau yn erbyn y swyddog eu cadarnhau tan y derbyniwyd adroddiad Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2021. Pwysleisiodd yr Arweinydd ei fod yn dal heb unrhyw wybodaeth yr adeg honno pwy oedd yn cael ei enwi yn yr adroddiad, at bwy y cyfeiriwyd y cwynion neu beth oedd natur y cwynion. Dywedodd hefyd mai dim ond 6 o'r 13 swyddog a gafodd eu henwi yn y llythyr gwreiddiol oedd yn cael eu henwi a'u beirniadu yn adroddiad terfynol Archwilio Cymru.<br><br>Yng nghyswllt ymchwiliad yr heddlu, roedd Archwilio Cymru wedi cyfeirio'r gŵyn chwythu'r chwiban i Heddlu Gwent ym mis Ionawr 2018 ac roedd yn fis Gorffennaf 2018 cyn i Heddlu Gwent gadarnhau y byddent yn ymchwilio'r gŵyn, tua 4 mis ar ôl i'r Cyngor gytuno i'r Adolygiad Uwch Reolaeth ac adeg yr adolygiad nid oedd y swyddog dan sylw yn cael ei ymchwilio gan yr heddlu. Dywedodd yr Arweinydd y deallai yn awr oherwydd bod 2 swyddog dan ymchwiliad yr heddlu ym mis Gorffennaf 2018, fod y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi cael cyngor cyfreithiol allanol i ganfod os y gallai'r swyddogion oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwnnw gan yr heddlu barhau yn y gwaith neu os dylid ystyried eu hatal o'r gwaith. Roedd y cyngor cyfreithiol hwn wedi cadarnhau nad oedd atal o'r gwaith yn briodol yn syml oherwydd fod ymchwiliad yn mynd rhagddo ac na ddylai'r Cyngor wneud unrhyw beth y gellid ei weld i ragdybio canlyniad unrhyw ymchwiliad ac oherwydd hyn fe wnaeth y ddau swyddog barhau yn y gwaith yn ystod ymchwiliad yr heddlu. Dywedodd yr Arweinydd efallai unwaith eto y gall y Rheolwr Gyfarwyddwr ddymuno cadarnhau fod y cyngor hwn yn glir ac mai dim ond pan oedd canlyniad ymchwiliadau Heddlu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwent ac Archwilio Cymru yn hysbys y dylid ystyried gweithredu ffurfiol. Cadarnhaodd Heddlu Gwent ym mis Medi 2019 y byddent yn cau'r ymchwiliad ac na fyddid yn cymryd unrhyw gamau yn erbyn swyddogion blaenorol neu swyddogion cyfredol.<br><br>Cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad ar 27 Ionawr 2022 a derbyniwyd hyn gan y Cyngor ar 7 Chwefror 2022 pan gytunwyd hefyd y dylid cynnal ymchwiliad mewnol gan ofyn am gyngor cyfreithiol pellach i gadarnhau cwmpas yr ymchwiliad hwn. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y gobeithiai fod yr esboniad hwn yn rhoi adroddiad ffeithiol o ddigwyddiadau ac, yn bwysicach, yn dangos nad oedd wedi cadw gwybodaeth yn fwriadol neu fel arall rhag y Cyngor neu Aelodau.<br><br>Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy drafod yn fyr y cyhoeddiadau a wnaed parthed diffyg tryloywder, cynhwysiant, parch a chadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol. Dywedodd fod mwyafrif llethol y bobl oedd yn ei adnabod yn wleidyddol, proffesiynol neu fel aelod o'r cyhoedd yn gwybod fod y rhain yn nodweddion dieithr iddo ac yn hollol groes i'w gymeriad<br>ac yn sicr ni fyddai wedi atal unrhyw wybodaeth y gellid bod wedi'i rhannu'n fodlon gyda'r Cyngor pe gwyddai amdani. Yn destun cadarnhad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol, eglurodd y dilynol:<br><br>- Nid oedd yr Arweinydd erioed wedi gweld yr ohebiaeth chwythu'r chwiban a hyd yn oed pe byddai wedi ei gweld, byddai'r Polisi Chwythu'r Chwiban a Chod Ymddygiad Aelodau wedi ei atal rhag datgelu unrhyw fanylion perthnasol i'r mater.<br><br>- Dim ond wedi dweud fod yr Arweinydd wedi ei nodi ar gylchrediad y copi ac nad oedd wedi derbyn yr ohebiaeth a wnaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>- Nid oedd unrhyw gyfiawnhad dros beidio caniatáu i ymddeoliad hyblyg yn unol â pholisi'r Cyngor i'r swyddog dan sylw.<br><br>- Roedd ymchwiliad Heddlu Gwent wedi dechrau ym mis Gorffennaf 2018, 4 mis ar ôl i'r Uwch Adolygiad Rheolaeth gael ei ystyried a'i gytuno a gofynnwyd am gyngor cyfreithiol allanol oedd yn amlwg yn cadarnhau na ddylid symud ymlaen â gweithredu ffurfiol yn erbyn y swyddogion nes bod | |

canlyniad gwaith Archwilio Cymru ac ymchwiliad yr heddlu yn hysbys.

- Roedd Heddlu Gwent wedi cau eu hymchwiliadau ym mis Medi 2019 heb gymryd unrhyw weithredu pellach.

- Roedd y Cyngor wedi cytuno ar adroddiad Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2022 a hefyd wedi cytuno y dylid cynnal ymchwiliad mewnol yn dilyn ceisio cyngor cyfreithiol pellach ar gwmpas yr ymchwiliad.

Daeth Arweinydd y Cyngor i ben drwy ddweud ei fod wedi ceisio cadw'r ymateb mor bwyllog ag oedd modd i gyfarch yr hyn a ystyriai yn gynnig diangen ac anhaeddiannol.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur i'r Arweinydd gael ei gynnwys nid yn unig ar y llythyr chwythu'r chwiban gwreiddiol ond hefyd wedi ei gynnwys ar gylchrediad yr ymateb. Dywedodd i ymchwiliad ffurfiol yr heddlu ddechrau ym mis Gorffennaf 2018 ond y bu ymchwiliad blaenorol yn Awst 2017 cyn i'r heddlu gadarnhau y cynhelid ymchwiliad ffurfiol. Ni fedrai dderbyn nad oedd yr Arweinydd wedi gweld yr ohebiaeth hon a dywedodd ei bod yn rhyfedd iawn pe na fyddai trafodaethau rhwng yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi sôn am yr honiadau difrifol hyn. Aeth ymlaen drwy ddweud fod yr ymchwiliad parhaus wedi atal cyfrifon y Cyngor rhag cael eu cyhoeddi am nifer y flynyddol.

Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y pwyntiau dilynol o gywirdeb ffeithiol:

- Yn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 7 Chwefror 2022, roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi cadarnhau fod yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd wedi eu copïo mewn ar waelod yr ohebiaeth chwythu'r chwiban. Gan nad oedd yn ei swydd yr adeg honno, ni fedrai gadarnhau un ffordd neu'r llall os oeddent wedi derbyn copi o'r llythyr.

- Roedd y gronoleg a amlinellwyd gan yr Arweinydd yn gywir. Roedd yn wir fod ymchwiliad yr heddlu wedi ei gadarnhau ac wedi dechrau ym mis Gorffennaf 2018. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol allanol ym mis Gorffennaf 2018 oedd wedi cadarnhau, er y gwnaed honiadau yn erbyn y ddau swyddog, nad oedd sail iddynt ac nad oeddent wedi eu profi felly am y rheswm hwnnw ni chymerwyd unrhyw gamau ar y pwynt

hwnnw er mwyn peidio rhagfarnu canlyniad gwaith Archwilio Cymru neu ymchwiliad yr heddlu.

Eglurodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Chyfreithiol a Chorfforaethol y pwyntiau dilynol o gywirdeb:

- Roedd Arweinydd y Grŵp Llafur wedi dweud mai dim ond dau swyddog a enwyd yn y llythyr chwythu'r chwiban oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor bryd hynny. Mewn gwirionedd, nid oedd hynny'n gywir a chafodd nifer o swyddogion a gyflogid gan y Cyngor bryd hynny eu henwi yn yr ohebiaeth.

- Er nad oedd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol wedi rhoi cyngor cyfreithiol i'r Cyfarwyddwr Arweiniol neu'r Arweinydd pan dderbyniwyd y llythyr yn 2017, ei chyngor fyddai wedi bod na ddylid rhannu cynnwys y llythyr yn cynnwys yr honiadau llwm hynny fod wedi eu rhannu gydag unrhyw un oherwydd y byddai hynny wedi bod yn groes i Bolisi Chwythu'r Chwiban a hefyd God Ymddygiad Aelodau.

- Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol wrth Aelodau yng nghyfraith Prydain fod person yn 'ddieuog nes y'i profir yn euog' ac nes i'r broses gael ei dilyn p'un ai oedd honno yn broses droseddol neu sifil neu'n archwiliad gan y rheoleiddiwr, mae pawb yn ddieuog o gyhuddiadau nes profwyd yn gywir ac ni ddylai neb fod yn destun unrhyw anfodd yn sgil gwneud honiad yn unig.

Yn dilyn trafodaeth faith, cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar y Cynnig fel sy'n dilyn:

**O blaid y Cynnig:** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis a L. Winnett.

**Yn erbyn y Cynnig** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, G. Thomas, J. Wilkins.

| | | |
|---|---|---|
| | **Felly <u>ni</u> chafodd y Cynnig ei gario.**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i beidio cefnogi'r Cynnig o Gerydd a nodir uchod. | |
| **No. 20** | **<u>CYLLIDEB REFENIW 2022/2023</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr Malcolm Cross, Lyn Elias, John Hill, Wayne Hodgins, Haydn Trollope, Thomas Smith a Bernard Willis fuddiant yn yr eitem hon ond gwnaethant aros yn y cyfarfod pan oedd yn cael ei hystyried.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau mai hwn oedd cam olaf proses gosod y gyllideb ac amlinellodd y pwyntiau perthnasol a gynhwysir o fewn yr adroddiad fel sy'n dilyn:<br><br>- Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent wedi cyhoeddi praeseptiau i'r cyngor yn gyfanswm o £6,342,390.<br><br>- Roedd praeseptiau Cynghorau Tref/Cymuned yn gyfanswm o £555,101.<br><br>- Yn cynnwys cymorth treth dewisol o £208,000, roedd cyfanswm net y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/2023 yn £168,267,696.<br><br>Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Adnoddau yr Awdurdod i adrodd ar y ddau bwynt dilynol:<br><br>i. Cadernid yr amcangyfrifon a gynhwysir yn y gyllideb<br>ii. Digonolrwydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.<br><br>Yng nghyswllt (i) uchod, gallodd y Prif Swyddog ddweud i'r amcangyfrifon gael eu paratoi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ac yn briodol gydnerth. Cafodd pwysau cost eu hystyried yn ystod y broses o osod y gyllideb ac ar gyfer y tymor canol.<br><br>Yng nghyswllt (i) uchod, mae paragraffau 5.1.9 i 5.1.12 yn dangos fod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn gwella ac yn edrych ar gyflawni sefyllfa gynaliadwy ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn y tymor canol. Byddai'r protocol cronfeydd wrth gefn yn parhau i | |

| | | |
|---|---|---|
| | adolygu cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau y caiff cronfeydd wrth gefn eu cadw ar lefel gynaliadwy yn y tymor canol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd am braeseptiau Cynghorau Tref/Cymuned, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd wedi codi ei braesept ar gyfer 2022/23 gan 52.39%.<br><br>Dywedodd Aelod, er ei bod yn dda mai cynnydd o 0% yn y dreth gyngor a gynigir ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, ei fod yn mynegi ei gonsyrn mai eiddo Band D ym Mlaenau Gwent sydd â'r lefelau treth gyngor uchaf yng Nghymru ac mae angen cyfarch hyn. Aeth ymlaen drwy ddweud ei bod yn nodi fod tri o'r Cynghorau Tref wedi gostwng lefel eu praesept am eleni a gofynnodd os yw'r Cyngor yn craffu ar ac yn archwilio lefelau praesept cynghorau tref/cymuned ar gyfer pob un o'r ardaloedd.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod gan gynghorau tref/cymuned hawl i osod eu lefelau praesept eu hunain ac nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros y penderfyniadau a wnaed.<br><br>Awgrymodd Arweinydd y Grŵp Llafur y gellid efallai gynnal dialog yn y dyfodol gyda chynghorau tref/cymuned am eu lefelau praesept. Dywedodd Aelod arall y dylid craffu ar wariant cynghorau tref/cymuned yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na wyddai am unrhyw fesurau y gellid eu gosod i roi uchafswm ar lefel praeseptiau cynghorau tref/cymuned ond byddai'n ymchwilio hyn ymhellach. Cynhelir archwiliad blynyddol ar braesept for cyngor tref/cymuned a sut y'i defnyddir.<br><br>Dymunai Arweinydd y Cyngor gofnodi ei longyfarchiadau a'i werthfawrogiad i Gynghorau Tref Brynmawr, Tredegar a Nantyglo a Blaenau am gymryd ymagwedd synhwyrol iawn yn y broses o osod y gyllideb eleni. Ni fedrai anghytuno gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd y byddai'n fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda'r cynghorau tref/cymuned am lefel eu praeseptiau yn y dyfodol. Felly cynigiodd gymeradwyo argymhellion 3.1 – 3.4.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodwyd: | |

**3.1** Bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2022 wedi cytuno ar gynnydd Treth Gyngor o 0% ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023. Fel canlyniad, byddai elfen Cyngor Blaenau Gwent o'r dreth gyngor llawn yn:-

| Bandiau Prisiant (£) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 1,178.90 | 1,375.38 | 1,571.87 | 1,768.35 | 2,161.32 | 2,554.28 | 2,947.25 | 3,536.70 | 4,126.15 |

**3.2** Mae'r Cyngor wedi cyfrif y symiau dilynol ar gyfer y flwyddyn (2022/2023) yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Llywodraeth Leol 1992.

**3.3** Sylfaen y Dreth Gyngor oedd y nifer o anheddau trethadwy ym mhob ardal wedi'i addasu ar gyfer nifer o eitemau e.e. gostyngiadau taladwy, a luoswyd gan y gyfradd gasglu dybiedig oedd yn 95% ar gyfer 2022/2023.

**a)** Y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif y Sylfaen Treth Gyngor) 1992 fel ei sylfaen Treth Gyngor am y flwyddyn oedd:

| |
|---|
| 20,876.86 |

**b)** Y symiau a gafodd eu cyfrif gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel swm ei sylfaen Treth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt oedd:

| | |
|---|---|
| 4,653.90 | Abertyleri a Llanhiledd |
| 1,703.87 | Brynmawr |
| 2,717.74 | Nantyglo a Blaenau |
| 4,745.30 | Tredegar |

**c)** Am y flwyddyn 2022/2023 mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent wedi nodi'r symiau dilynol mewn praeseptiau a gyhoeddwyd i'r Cyngor (cyfanswm o £6,342,390), yn unol ag Adran 40 Deddf Llywodraeth Leol

1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir:

| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bandiau Prisiant (£) | | | | | | | | |
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 202.53 | 236.29 | 270.04 | 303.80 | 371.31 | 438.82 | 506.33 | 607.60 | 708.87 |

**3.4** Bod y symiau dilynol yn awr yn cael eu cyfrif gan y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** 238,686,776 — Sef croniad y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) y Ddeddf.

**b)** 70,627,080 — Sef croniad y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** 168,059,696 — Sef y swm y mae'r croniad yn (a) yn uwch na'r swm cronnus yn (b), a gafodd ei gyfrif gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, fel ei ofyniad cyllideb am ar gyfer y flwyddyn.

**d)** 208,000 — Sef y swm y mae'r Awdurdod yn amcangyfrif yng nghyswllt Adrannau 47 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol a Threthi 1997, ar gyfer cymorth ardrethi annomestig dewisol.

**e)** 130,795,000 — Sef croniad y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif fydd yn daladwy am y flwyddyn i'w gronfa Cyngor yng nghyswllt ardrethi annomestig a ailddosbarthwyd, grant cymorth refeniw a grant ychwanegol.

**f)** 1,794.94 Sef y swm yn (c) uchod ynghyd â'r swm yn (d) uchod ac
yn llai na'r swm yn (e) uchod, i gyd wedi eu rhannu gan
y swm yn 3.2(a) uchod, a gaiff ei gyfrif gan y Cyngor,
yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf fel swm sylfaenol ei
Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**g)** 555,101 Swm cronnus yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34|(1) y Ddeddf.

**h)** 1,768.35 Sef y swm yn (f) uchod llai'r canlyniad a geir drwy
rannu'r swm yn (g) uchod gan y swm yn 3.2(a) uchod,
a gafodd ei gyfrif gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2)
y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y
flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal
nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol iddynt.

**i.** Y symiau a roddwyd drwy ychwanegu'r swm at (h) uchod y symiau o'r eitem neu eitemau arbennig yn gysylltiedig ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodwyd uchod a rannwyd ym mhob achos gan y swm yn 3.2(b) uchod, a gafodd ei gyfrif gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel y symiau sylfaenol o'i Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal yr oedd un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt oedd:

**j.**

| | |
|---|---|
| 1,830.45 | Abertyleri a Llanhiledd |
| 1,793.59 | Brynmawr |
| 1,799.52 | Nantyglo a Blaenau |
| 1,797.52 | Tredegar |

Roedd y symiau a roddwyd drwy luosi'r symiau yn (h) ac (i) uchod gyda'r rhif oedd, yn y gyfran a nodir yn adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiant neilltuol wedi ei rannu gan y nifer sydd yn y gyfran honno yn berthnasol i'r anheddau a restrir ym mand prisiant D, a gafodd eu cyfrif gan y cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i gael eu hystyried am y flwyddyn yng nghyswllt categorïau anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiant oedd:

**k.**

| | Treth Gyngor y Sir yn cynnwys Praeseptiau Cymunedol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,220.30 | 1,423.68 | 1,627.07 | 1,830.45 | 2,237.22 | 2,643.98 | 3,050.75 | 3,660.90 | 4,271.05 |
| Brynmawr | 1,195.73 | 1,395.01 | 1,594.31 | 1,793.59 | 2,192.17 | 2,590.74 | 2,989.32 | 3,587.18 | 4,185.04 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,199.68 | 1,399.62 | 1,599.58 | 1,799.52 | 2,199.42 | 2,599.30 | 2,999.20 | 3,599.04 | 4,199.88 |
| Tredegar | 1,198.35 | 1,398.07 | 1,597.80 | 1,797.52 | 2,196.97 | 2,596.41 | 2,995.87 | 3,595.04 | 4,194.21 |
| Glynebwy | 1,178.90 | 1,375.38 | 1,571.87 | 1,768.35 | 2,161.32 | 2,554.28 | 2,947.25 | 3,536.70 | 4,126.15 |

Ar ôl cyfrif y croniad ym mhob achos o'r symiau yn (c) a (j) uchod, drwy hyn mae'r Cyngor, yn unol ag adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau neilltuol fel y symiau o Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2022/23 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir islaw:

| | Treth Lawn Treth y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys yr Heddlu a Phraeseptiau Cymunedol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,422.83 | 1,659.97 | 1,897.11 | 2,134.25 | 2,608.53 | 3,082.80 | 3,557.08 | 4,268.50 | 4,979.92 |
| Brynmawr | 1,398.26 | 1,631.30 | 1,864.35 | 2,097.39 | 2,563.48 | 3,029.56 | 3,495.65 | 4,194.78 | 4,893.91 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,402.21 | 1,635.91 | 1,869.62 | 2,103.32 | 2,570.73 | 3,038.12 | 3,505.53 | 4,206.64 | 4,907.75 |
| Tredegar | 1,400.88 | 1,634.36 | 1,867.84 | 2,101.32 | 2,568.28 | 3,035.23 | 3,502.20 | 4,202.64 | 4,903.08 |
| Glynebwy | 1,381.43 | 1,611.67 | 1,841.91 | 2,072.15 | 2,532.63 | 2,993.10 | 3,453.58 | 4,144.30 | 4,835.02 |

**No. 21** **<u>FFIOEDD A THALIADAU CORFFORAETHOL 2022/2023</u>**

Datganodd y Cynghorwyr Stewart Healey a Wayne Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ac arhosodd yn y cyfarfod tra'r oedd yn

cael ei ystyried.

Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a dywedodd:

- Y cafodd y gofrestr Ffioedd a Thaliadau ei hadolygu i:
- Sicrhau fod yr holl ffioedd a thaliadau a gynhwysir ar y gofrestr yn berthnasol ar gyfer 2022/2023.
- Adlewyrchu newidiadau mewn polisi a chostau lleol a chenedlaethol.
- Adlewyrchu'r tybiaethau a gynhwysir o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol lle'n briodol.

- Mae'r gofrestr yn cynnwys taliadau a dderbyniwyd:
- Cynnydd chwyddiant o 2% y flwyddyn fel y cytunwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.
- Dim cynnydd ffioedd.
- Ffioedd a thaliadau y cynigir eu cynyddu gan fwy na 2%.

- Byddai'r ffioedd a gynigir ar gyfer Trwyddedu yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu a chawsant eu cynnwys yn y Gofrestr er mwyn bod yn gyflawn. Cynigid cynnal y ffioedd ar lefel 2021/2022 yn seiliedig ar fodel cost llawn y fframwaith cenedlaethol.

- Gwasanaethau Cymdeithasol (amrywiol) – Mae'r ffioedd hyn yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda darparwyr i adlewyrchu'r cynnydd priodol i dalu am gost ychwanegol y Cyflog Byw Gwirioneddol, cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, costau ynni ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae'r oedi yn derbyn y canllawiau llawn ar weithredu'r cyflog byw gwirioneddol wedi creu anawsterau gyda'r trafodaethau hyn. Felly cynigwyd y dylid rhoi pŵer i Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol i osod y ffioedd a'r taliadau hyn ar gyfer 2022/2023.

- Atodir ffioedd a thaliadau Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar gyfer gwasanaethau craidd ar gyfer 2022/23 i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor yn unol gyda'r cytundeb cyllido a rheoli. Roedd y cynnig a gynigir i fwyafrif y ffioedd tua 3%, fodd bynnag roedd nifer o ffioedd wedi gostwng gan hyd at 30% a nifer wedi cynyddu gan hyd at 36% sydd oherwydd

safoni'r cyfraddau iau a gostyngiadau ar draws y busnes fel canran benodol o'r ffi safonol i wella'r cysondeb ar gyfer y dyfodol.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo'r adroddiad gyda'r diwygiadau dilynol:

- Ni weithredir cynnydd o 10% ar brydau ysgol. Byddai'r cost yn parhau ar brisiau cyfredol 2021/2022.
- Ni fyddai pris Pryd ar Glyd yn cynyddu a chedwir y gost ar brisiau 2021/2022.

Dywedodd Aelod ar adeg pan oedd llesiant plant yn flaenoriaeth bennaf fod nifer o'r cynnydd mewn taliadau a gynigiwyd gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn achosi rhwystr i blant, pobl ifanc a'r gymuned i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau. Ni fedrai gytuno i gynnydd o'r maint hwn a theimlai fod y cynnydd canrannol yn anghymesur pan fod ymdrechion yn cael eu gwneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a dywedodd y dylai'r cynnydd barhau i fod ar lefel chwyddiant yn unig. Roedd y taliadau y cyfeirir atynt yn ymwneud â:

- Nofio Iau – cynnydd o 17.4%
- Nofio Iau gyda Gostyngiad – cynnydd o 16.11%
- Stiwdio Lifestyle – Iau gyda Gostyngiad – cynnydd o 30.77%

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod hamdden yn draddodiadol yn gyllideb fregus a dywedodd ei fod yn ansicr beth fyddai effaith posibl peidio cytuno ar y newidiadau a gynigir yn ei gael ar yr amcanestyniad o ffrydiau refeniw.

Cynigiodd yr Aelod y dylid cynnal trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i esbonio fod y canran cynnydd yn anghymesur ac y byddai'n achosi rhwystrau i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau ac y dylid gwneud cais i roi ystyriaeth briodol i gynnydd canran yn unol â chwyddiant.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin wedi cynnal ymarfer meincnodau ar eu ffioedd a thaliadau arfaethedig gydag awdurdodau cyfagos ar gyfer gweithgareddau tebyg fel rhan o broses y gyllideb. Er nad oedd ganddo wybodaeth ar gael am ba

| | | |
|---|---|---|
| | effaith y byddai addasiadau ar i waered yn ei gael ar gyllideb yr Ymddiriedolaeth yn nhermau ffrydiau incwm, byddai'n cael effaith ar gynhyrchu incwm ond dywedodd y byddai'n cynnal trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth am y pryderon a gafodd eu codi.<br><br>Mewn ymateb i gais, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gallai'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol ystyried y ffioedd a thaliadau a gynigiwyd i gael barn Aelodau cyn cael ei adrodd i'r Cyngor llawn.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan gynigiwyd derbyn yr adroddiad yn disgwyl trafodaeth rhwng Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin am y lefelau a gynigir ar gyfer ffioedd a thaliadau. Cafodd y cynnig ei eilio.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>Felly PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unfrydol, yn amodol ar y diwygiadau uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo opsiwn 1, sef:<br><br>- Cymeradwyo'r gofrestr o Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2022/2023 a nodir yn Atodiad 1, a'r cynnydd pris craidd yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a nodir yn Atodiad 2..<br><br>- Rhoi pŵer a chyfrifoldeb dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gosod y ffioedd a thaliadau ar gyfer 2022/2023 yn ymwneud â darparu gofal cymdeithasol allanol. | |
| **No. 22** | **<u>RHEOLI TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI A DATGANIAD POLISI MRP 2021/2022 (YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fyr am yr adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau perthnasol ynddo. Dywedwyd fod angen i awdurdodau lleol baratoi, cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, ddatganiad o'u polisi ar wneud darpariaeth refeniw i gynnwys ad-daliadau dyled (a elwir yn MRP neu Darpariaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | Isafswm Refeniw) yng nghyswllt y flwyddyn ariannol honno a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo. Felly caiff y datganiad MRP ar gyfer 2022/23 hefyd ei gynnwys fel rhan o'r Datganiad Strategaeth Trysorlys (Atodiad A). Rhoddir y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys er gwybodaeth fel Atodiad B.<br><br>Byddid yn cydymffurfio â'r polisïau hyn bob amser gyda'r prif amcanion yn gyntaf ddiogelwch ac yn ail hylifedd buddsoddiadau a byddai hefyd yn anelu i leihau costau refeniw dyled tra'n cynnal lefel ddarbodus o adbrynu dyled.<br><br>Nid oedd newidiadau sylweddol i'r polisi a gynigir ar gyfer 2022/23. Mae'r prif newid yn cynnwys datblygu pellach ar strategaeth buddsoddi blynyddol i roi cyfleoedd ychwanegol ar gyfer y lefelau uwch o fuddsoddiad a gaiff eu rhagweld yn y tymor canol. Yn ychwanegol, mae'r polisi yn rhoi manylion y dangosyddion darbodus a fyddai'n monitro perfformiad, a fyddai'n cael eu hadrodd i Aelodau drwy gydol blwyddyn ariannol 2022/2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef y Datganiad Blynyddol Strategaeth Trysorlys, Strategaeth Blynyddol Buddsoddi a'r Datganiad Polisi MRP ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'r Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a gynhwysir ynddynt. | |
| **No. 23** | **<u>STRATEGAETH CYFALAF 2022/2023</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad ac esboniodd y bwriedir i'r Strategaeth Cyfalaf roi trosolwg lefel uchel o sut yr oedd gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys wedi cyfrannu at ddarparu gwasanaethau ynghyd â throsolwg o sut y caiff risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol y dyfodol. Mae datblygu strategaeth cyfalaf yn rhoi hyblygrwydd i ymgysylltu gyda'r Cyngor llawn i sicrhau bod pob Aelod etholedig yn deall y strategaeth gyffredinol, gweithdrefnau llywodraethiant ac awydd risg yn llawn.<br><br>Er nad oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol i Strategaeth Cyfalaf 2022/2023, byddai datblygiadau diweddar i Reolaeth Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a'r Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf yn Awdurdodau Lleol a ddiwygiwyd yn 2020/2021 yn arwain at newidiadau a fyddai'n | |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithio ar adroddiadau Strategaeth Cyfalaf o 2023/2024 ymlaen pan mae angen mabwysiadu'r codau diwygiedig yn ffurfiol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar Strategaeth Cyfalaf 2022/2023. | |
| **No. 24** | **<u>ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch am yr adroddiad yn fanwl a thynnodd sylw at y penderfyniadau a gynhwysir o fewn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23.<br><br>Gan fod etholiadau lleol ar y gorwel, byddai'r trefniadau newydd yn dod i rym o 9 Mai 2022 a byddai penderfyniadau presennol 2021/2022 y Panel yn weithredol am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 8 Mai 2022.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol mai dewis Aelodau unigol yw p'un ai i beidio derbyn neu ostwng lefel eu cydnabyddiaeth ariannol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cyngor wedi ymateb yn flaenorol i'r Panel fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ar ddrafft benderfyniadau 2022/2023 yn mynegi gwrthwynebiad a phryderon am y cynigion a dywedodd fod angen i'r Cyngor yn awr nodi'r penderfyniadau terfynol.<br><br>Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bryder am y cynnydd a gynigir i lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar hyn o bryd pan mae cynifer o bobl yn profi cyfyngiadau ariannol difrifol. Felly cynigiodd gadw'r status quo h.y. cadw cydnabyddiaeth ariannol ar lefelau 2021/2022. Cytunodd Aelodau eraill gyda'r sylwadau hyn a mynegodd eu pryder ar y cyd am y cynnydd presennol mewn costau byw a mynegodd bryderon yng nghyswllt nodi'r penderfyniadau yn y dyfodol.<br><br>Ategodd Arweinydd y Cyngor y cafodd ymateb ar y cyd ei anfon yn mynegi pryderon a gwrthwynebiadau i'r cynigion ac mai dim ond | |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer eu nodi oedd y penderfyniadau. Caiff y penderfyniadau hyn eu gweithredu ledled Cymru a phenderfyniad cynghorwyr unigol fyddai derbyn lefel y gydnabyddiaeth ariannol a deimlent yn briodol.<br><br>Dywedodd Arweinydd Pennaeth Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth fod yr adroddiad ar gyfer ei nodi yn unig a dim i'w gymeradwyo ac y byddai'r penderfyniadau yn cael eu gweithredu pa bynnag bryderon a fynegwyd. Mae hyn yn sefyllfa unigryw ac nid oes unrhyw opsiwn i wrthod y penderfyniadau hyn. Cafodd gwrthwynebiadau Aelodau eu nodi ond mater i Aelodau unigol yw p'un ai a fyddant yn derbyn y lefel briodol o gydnabyddiaeth ariannol.<br><br>Er eglurdeb, dywedodd y Prif Swyddog Cyngor fod gan y Cyngor reidrwydd cyfreithiol i weithredu penderfyniadau adroddiad y Panel a dywedodd eto mai mater i Aelodau unigol oedd penderfynu rhoi'r gorau i neu beidio derbyn unrhyw elfen o'r gydnabyddiaeth ariannol. Nodwyd, pe byddai Aelod yn penderfynu i roi'r gorau yn wirfoddol i ran o'u cydnabyddiaeth ariannol, y byddai'r yswiriant gwladol a didyniadau treth yn seiliedig ar y swm net. Caiff cydnabyddiaeth ariannol ei dalu fel rhan o gyllideb y Cyngor ac y byddai unrhyw orwariant yn cael ei gadw o fewn y gyllideb.<br><br>Er eglurhad, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol na fedrid cymryd penderfyniad neu gynnig arall (h.y. i gadw'r lefelau presennol o gydnabyddiaeth ariannol) a fyddai'n rhwymo pob Aelod oherwydd y caniateir fod y gyfraith yn caniatau'r penderfyniadau hyn a mater i unigolion yw penderfynu p'un ai i dderbyn y swm llawn. Yn nhermau cydymffurfiaeth, ychwanegodd y Prif Swyddog Adnoddau ei fod yn ofyniad cyfreithiol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r awdurdod perthnasol gydymffurfio gyda'r penderfyniadau a gweithredu'r penderfyniadau o fewn pob blwyddyn ariannol.<br><br>Felly cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur, gan y byddai'r penderfyniadau yn weithredu i Aelodau'r Cyngor newydd, y gellid gohirio'r adroddiad a'i ystyried ar yr adeg honno.<br><br>Eiliodd Arweinydd y Cyngor y cynnig gan fod y Cyngor yn unedig yn ei wrthwynebiad yng nghyswllt y penderfyniadau i gynyddu lefelau cydnabyddiaeth ariannol a hyd yn oed cafodd y gwrthwynebiadau hyn fel rhan o'r cyfnod ymgynghori i'r Panel, | |

| | | |
|---|---|---|
| | maent yn dal i barhau.<br><br>Yn dilyn trafodaeth faith pan awgrymwyd y dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.<br><br>Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol i **ohirio** yr adroddiad ac iddo gael ei ystyried gan y cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai. | |
| **No. 25** | **DATGANIAD POLISI TÂL 2022/2023**<br><br>Datganodd y swyddogion dilynol fuddiant yn yr eitem hon ac aros yn y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei hystyried;<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Bernadette Elias – Prif Swyddog Interim Masnachol<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Clive Rogers – Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol<br>- Ellie Fry – Pennaeth Adfywio<br>- Sarah King – Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau<br>- Gina Taylor – Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg<br>- Gemma Wasley – Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd<br>- Richard Bridge – Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch<br>- Steve Berry – Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant<br>- Louise Bishop – Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd<br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd<br>- Leeann Turner – Swyddog Cymorth Democrataidd a Phwyllgorau<br><br>Fodd bynnag, pe byddai trafodaeth yn dilyn byddai'r swyddogion hynny a ddatganodd fuddiant yn gadael y cyfarfod ar yr adeg priodol ag eithrio:<br><br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd (clerc cofnodion) | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol yn fyr am yr adroddiad, a<br><br>PHENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2022/2023. | |
| **No. 26** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>**<u>Panel Ymgynghori ar gyfer Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol</u>**<br><br>Gwnaeth y Panel yr argymhellion dilynol ar 8 Mawrth 2022 i benodi mewn egwyddor:<br><br>**Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau** – Laura Newall<br><br>**Ysgol Gyfun Tredegar –** Adrian Tuck<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo’r penodiadau uchod. | |
| **No. 27** | **<u>GWERTHFAWROGIAD</u>**<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor mai hwn fyddai cyfarfod ffurfiol diwethaf y Cyngor y byddai’r Rheolwr Gyfarwyddwr yn ei fynychu cyn gadael i fynd i’w swydd newydd a dymunai fanteisio ar y cyfle i fynegi yn ddiffuant ei werthfawrogiad i Michelle am ei holl waith caled ac ymroddiad i’r cyngor yn ystod ei chyfnod fel Rheolwr Gyfarwyddwr. Roedd wedi cael Michelle yn weithiwr effeithlon iawn, roedd wedi gweithio gyda’r holl arweinyddiaeth wleidyddol ar bob ochr o’r Cyngor ac wedi bod yn deg, agored ac wedi gweithio’n galed i gyflawni’r blaenoriaethau a fu’n bwysig i’r Cyngor a’i phreswylwyr.<br><br>Roedd Michelle wedi gwneud gwaith enfawr ar drawsnewid gwasanaethau a dod ag effeithiolrwydd a moderneiddio’r sefydliad ac yn y 2 flynedd ddiwethaf dan arweiniad y Rheolwr Gyfarwyddwr, roedd y Cyngor wedi wynebu heriau sylweddol enfawr y pandemig Covid, gan weithio mewn cysylltiad gyda chydweithwyr ac Aelodau ym Mlaenau Gwent ac fel rhan o’r | |

| | | |
|---|---|---|
| | ymateb argyfwng rhanbarthol.<br><br>Dywedodd yr Aelod y gwyddai am y parch yr oedd Michelle wedi ei feithrin yn y 5 mlynedd gyda phrif weithredwyr eraill a swyddogion o bob rhan o Went, y rhanbarth a Chymru. Daeth i ben drwy ddweud ei fod yn bleser a braint llwyr i weithio gyda Michelle a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>Cytunodd Arweinydd y Grŵp Llafur gyda'r sylwadau gan yr Arweinydd a dywedodd y byddai Michelle yn golled i'r Cyngor ond dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd.<br><br>Ychwanegodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau i Michelle yn ei swydd newydd.<br><br>Mynegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei gwerthfawrogiad i'r ddau Arweinydd am ei geiriau caredig a mynegodd ei werthfawrogiad i'r Cyngor am y cyfle a gafodd i wneud y swydd am y pedair blynedd a hanner ddiwethaf. Bu'n fraint ac roedd yn falch o'r hyn a gyflawnodd yn ystod y cyfnod. Bu'r ddwy flynedd ddiwethaf, y llwyddodd y Cyngor i ganfod ei ffordd drwyddynt, yn amser anghyffredin iawn i bawb.<br><br>Manteisiodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ar y cyfle i fynegi ei gwerthfawrogiad i'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol oedd wedi ei chefnogi drwy gydol ei hamser yn y swydd a dywedodd y gwyddai y byddai'r swyddogion hyn yn parhau i arwain y cyngor o'r ochr broffesiynol ac i staff, ased fwyaf y Cyngor, a aeth yr ail filltir a thu hwnt mewn amgylchiadau eithriadol a mynegodd ei gwerthfawrogiad iddynt am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus i'r Cyngor. Daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy estyn ei dymuniadau gorau oll ar gyfer y dyfodol i'r Cyngor, y staff a Blaenau Gwent. | |
| **No. 28** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem(au) eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm dros y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol).<br><br>Gadawodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y cyfarfod ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | y pwynt hwn. | |
| **No. 29** | **<u>LLUNIO RHESTR FER – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Cafodd eitemau 27 – 30 eu hystyried ar yr un pryd.<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 30** | **<u>LLUNIO RHESTR FER – PRIF WEITHREDWR INTERIM</u>**<br><br>Datganodd y Cyfarwyddwr corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Masnachol fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniadau a nodir ynddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 31** | <u>**PWYLLGOR APWYNTIADAU – SWYDDOGION JNC**</u><br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy’n cyfeirio at faterion staffio a chynnig y swydd i Vikki Gledhill ar gyflog yn unol â<br>JNC 1 (£51,407 - £56,544). | |
| **No. 32** | <u>**PWYLLGOR APWYNTIADAU – PRIF WEITHREDWR INTERIM**</u><br><br>Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy’n cyfeirio at faterion staffio a chynnig y swydd i Damien McCann ar gyfelog yn unol â JNC Prif Weithredwyr (£102,976 - £111,055). | |